

Digwyddiadau Anhygoel YR HAF

Gweler tu fewn am
fwy o fanylion



Diwrnod y Lluoedd Arfog - cyfri'r dyddiau!

Rydym yn cyfri'r dyddiau cyn Diwrnod y Lluoedd Arfog De Cymru 2016, a fydd am y tro cyntaf yn cael ei gynnal yng Nghaerffili ar Ddydd Sadwrn 25ain Mehefin.

Bydd cannoedd o bersonél y Lluoedd Arfog, cadlanciau a chyn-filwyr yn gorymdeithio drwy ganol tref Caerffili (yn dechrau am 11am). Bydd yr orymdaith yn gadael Ysgol Martin Sant, yn teithio lawn drwy'r dref ar hyd Heol Caerdydd, troi i'r chwith wrth oleuadau'r Piccadilly ymlaen at Heol Nantgarw ac mae'n gorffen ar Heol y Cilgant.



Bydd digwyddiad am ddim llawn hwyl i'r teulu hefyd yn cael ei gynnal rhwng 10am a 6pm yng Nghaeau Chwarae Owain Glyndŵr ar Heol y Cilgant, lle bydd yr ardal yn llawn o stondinau a phebyll mawr milwrol, arddangosiadau, arena ddigwyddiadau, bar trwyddedig a llawer mwy.

Mae'r digwyddiad yn cael ei drefnu a'i gydlynu gan bwyllgor Diwrnod y Lluoedd Arfog De Cymru, tîm ymrwymedig o wirfoddolwyr - a chefnogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Dywedodd Phil Hubbard, Cadeirydd Pwyllgor Diwrnod y Lluoedd Arfog De Cymru "Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog yn gyfle gwych i bawb i ddangos eu cymorth i'r dynion a'r menywod sy'n gwneud cymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys milwyr sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, cyn-filwyr, cadlanciau a theuluoedd pobl yn y fyddin."

Bydd y diwrnod o ddigwyddiadau am ddim hefyd yn cynnwys arddangosfeydd milwrol, perfformiadau cerddorol, ac arddangosfa parasiwt gan Gorfflu Logisteg Brenhinol y 'Silver Stars'.

Ychwanegodd y Cyng. Keith Reynolds, "Wrth i ni gyfri'r dyddiau i ddigwyddiad Diwrnod y Lluoedd Arfog De Cymru, rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r achlysur hwn i Gaerffili. Rydym yn gefnogwyr mawr o'n lluoedd arfog yma ym mwrdeistref sirol Caerffili ac nid oes amheuaeth gen i fydd ein trigolion ac ymwelwyr yn troi i fyny yn ei miloedd i helpu dathlu a dangos cymorth yn y digwyddiad gwych hwn."



Am wybodaeth bellach, ewch i www.southwalesarmedforcesday.org

HARRY yn camu i lawr

Mae un o gynghorwyr yr ardal sydd ymhlith y rhai sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod hiraf, wedi camu i lawr ar ôl ymroi dros hanner canrif i wasanaeth cyhoeddus.

Cymerodd y Cynghorydd Harry Andrews MBE, a oedd yn cynrychioli ward Gilfach, y penderfyniad fel y gallai dreulio mwy o amser gyda'i deulu a dilyn ei ddiddordebau personol.

Meddai'r Cynghorydd Keith Reynolds, Arweinydd y Cyngor, "Mae'r angerdd a'r ymrwymiad i bobl y fwrdeistref sirol hon y mae Harry wedi'i ddangos yn ystod ei yrfa wleidyddol o bron 50 o flynyddoedd wedi bod yn ddiymhongar. Mae wedi cynnig nerth i'r Cyngor hwn ers blynnyddoedd lawer."

"Fel cyfaill a chydweithiwr da, teimlaf yn falch iawn fy mod wedi cael cyfle i weithio wrth ei ymyl ers cynifer o flynyddoedd. Dymunaf bob hwyl i Harry a'i deulu ar gyfer y dyfodol", ategodd.

Caiff isetholiad ei drefnu i ddewis Cynghorydd newydd dros ward Gilfach maes o law.



Casgliadau treth y cyngor gorau erioed

Dros y flwyddyn ddiwethaf (2015/16), cafodd 97% o'r holl filiau treth y cyngor a gyhoeddwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol eu casglu yn llawn - sef y lefel uchaf a gyflawnwyd ers I Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gael ei ffurfio ym 1996!

Eleni a llynedd ill dau, mae'r cyfanswm a gasglwyd wedi cynyddu gan 0.3% ychwanegol, ac mewn cyfnod o 3 blynedd, mae'r casgliad wedi codi i 99.5% yn gyffredinol, sy'n golygu fod y rhan mwyafrif o drigolion yn talu eu treth y cyngor yn llawn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae casgliad cyfraddau busnes hefyd wedi codi i 97.7% - cynnydd o 0.7% ar y flwyddyn flaenorol.

Dwydododd y Cyng. Barbara Jones, "Diolch i'r mwyafrif sy'n talu eu treth y cyngor/trethi busnes heb unrhyw broblem. Mae'r canlyniadau hyn wir yn gyflawniad ac yn arddangos ymrwymiad y cyngor i gasglu'r holl dreth y cyngor a chyfraddau busnes sy'n ddyledus."

Cyflwynwyd gwasanaeth negeseuon testun misol mis Mai'r llynedd i atgoffa talwyr treth y cyngor pan fod taliad yn ddyledus. I gofrestru ar gyfer y gwasanaeth am ddim hwn, e-bostiwch: trethcyngor@caerffili.gov.uk neu ffoniwch **01443 863002**.



Erbyn hyn, mae nifer o fflatiau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yn barod i'w rhentu yn Rowan Place, Rhymni sef ardal sy'n cael ei gweddnewid ar hyn o bryd diolch i raglen adfywio sy'n werth £4.2 miliwn.

Mae gwelliannau mewnol ac allanol helaeth yn cael eu cynnal ar gartrefi yn Rowan Place gan gynnwys toeau, rendro, ceginau, ystafelloedd ymolchi a systemau gwresogi newydd. Mae gwelliannau hefyd yn cael eu cynnal ar yr amgylchedd ehangach.

Mae'r cartrefi sy'n barod i'w rhentu yn gymysgedd o fflatiau 2 ystafell wely ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf sydd ar gael i deuluoedd sydd ag un plentyn yn unig. Mae pob un o'r eiddo wedi'i adnewyddu yn llawn, mae ganddynt eu gerddi preifat eu hunain ac maent yn agos i gysylltiadau trafnidiaeth, siopau a chyfleusterau lleol.

I dderbyn gwybodaeth bellach am y cartrefi sydd ar gael i'w rhentu neu i drefnu ymweld ag un, ffoniwch Swyddfa Dai Cwm Rhymni Uchaf ar **01443 873535** neu anfonwch e-bost i sdacwmrhymniuchaf@caerffili.gov.uk. Mae'r Cyngor yn croesawu ymholiadau gan bobl nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr aros tai ar hyn o bryd.

'NATURAL BUZZ' YM MHARC MORGAN JONES

Cafodd Parc Morgan Jones yng Nghaerffili ei ddewis fel lleoliad blaenllaw ar gyfer y fenter 'Natural Buzz' 2016.

Eleni, bydd y fenter yn cynnwys plannu blodau gwyllt gyda hadau pryfed peillio gyfeillgar yn cael eu cyflwyno i ardal y twmpath mawr ym Mharc Morgan Jones. Bydd hyn yn cefnogi pili-palod a phryfed peillio eraill o fewn yr ardal.

Bydd cyflwyno hadau blodau gwyllt o fewn y Parc yn cefnogi twf y pryfed peillio fel pili-palod, sydd ar hyn o bryd yn dirywio ledled Cymru. O'r 43 rhywogaeth pili-pala sy'n frodorol i Gymru ar hyn o bryd, mae 10 rhywogaeth yn gostwng yn ddifrifol.

Dwydododd y Cyng. Ken James, Aelod y Cabinet dros Adfywio: "Rwyf yn falch iawn bod y fenter hon yn cael ei gweithredu o fewn Parc Morgan Jones. Mae gwaith paratoi ar gyfer y cynllun hwn eisoes wedi dechrau a bydd yn arwain at danbaid o liw drwy gydol yr haf, tra'n helpu bioamrywiaeth o fewn y Parc.

Nod y prosiect yw codi proffil pryfed peillio a'u rôl yn yr amgylchedd drwy ymgysylltu â chymunedau, ysgolion, busnesau a grwpiau eraill i wella mannau gwyrdd ar gyfer natur.

Mae 'Natural Buzz' yn fenter pryfed peillio gan Cadwch Gymru'n Dacul yn rhedeg mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Masnach Arddwriaethol a Mannau Gwyrdd Cymru.



Y Cyngor yn ymrwymo i weddnewid Parc Lansbury

Mae Christina Harrhy, Cyfarwyddwraig Gymunedol y Cyngor wedi cyflawni ymrwymiad personol i gwrdd â chynrychiolwyr cymuned Parc Lansbury i drafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol.



Cafodd nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer Parc Lansbury eu trafod yn ystod cyfarfod rhwng y Cyfarwyddwraig Gymunedol, aelodau ward lleol a chynrychiolwyr o grŵp gweithredu 'Lansbury Matters'.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella tai - mae dros £2.9miliwn wedi'i ymrwymo i wella adeiladwaith mewnol eiddo ar draws yr ystâd gan gynnwys uwchraddio ceginau ac ystafelloedd ymolchi. Mae'r gwaith hwn ar fin cael ei gwblhau.
- Hefyd caiff £7miliwn ei thargedu tuag at wella adeiladwaith allanol dros 500 o dai Cyngor ar draws yr ystâd.
- Caiff tua £500,000 ei neilltuo i gyflenwi ystod o welliannau amgylcheddol ar draws yr ystâd.

■ Wrth ochr hyn, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi sefydlu gweithgor arbennig sy'n cynnwys cynghorwyr, uwch swyddogion a mudiadau partner i gydlyn cynlluniau gwella ar gyfer Parc Lansbury.

Meddai Christina Harrhy, "Erbyn hyn, rydym yn awyddus i weithio â'r gymuned gyfan i ddatblygu gweledigaeth gyffrous ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod gennym gynllun gweithredu priodol mewn lle i'w gwireddu. Byddwn, wedyn, yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynnig am arian grant gan Lywodraeth Cymru ac, os yn llwyddiannus, gallai'r arian hwn gael ei ddarfarnu yn ystod 2017/18."

I gychwyn ar y broses, gofynnwyd i drigolion Parc Lansbury enwebu eu hunain i gynrychioli eu cymuned ar grŵp trigolion. Yn dilyn hynny, bydd modd i'r gymuned gyfan bleidleisio dros y bobl i'w cynrychioli er mwyn cael dylanwad ar ddyfodol Parc Lansbury.

Newidiadau i wasanaethau bws ar y gweill

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am hysbysu preswylwyr y bydd nifer o amserlenni bysiau ar draws y fwrdeistref yn newid ar Ddydd Sadwrn 30 Gorffennaf a Dydd Llun 1 Awst.

Bydd hysbysiad ymlaen llaw am y newidiadau yn ymddangos ar fysiau dros yr wythnosau nesaf ac mae teithwyr yn cael eu hannog i edrych allan am newidiadau a all effeithio ar eu teithiau.

I weld unrhyw ddiweddariadau ewch i www.caerffili.gov.uk neu dilynwch [@CaerphillyCBC](https://twitter.com/CaerphillyCBC) ar Twitter.



Sicrhau £1.2 miliwn ar gyfer prosiectau cludiant a diogelwch y ffyrdd

Mae cyllid o £1.2 miliwn wedi cael ei sicrhau ar gyfer cyfres o brosiectau cludiant a diogelwch y ffyrdd, diolch i gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Bydd £825,000 o'r cyllid yn mynd tuag at wella arhosfannau bysys yn ardal basn Caerffili, a fydd yn cynnwys darparu cyrbau mynediad a gwella troedffyrdd a mynediad i'r arhosfannau bysys. Bydd cynllun diogelwch y ffyrdd ar Heol/Coedlan Hengoed Cefn Hengoed yn gweld £185,000 o fuddsoddiad, ac mae £90,600 wedi cael ei gyflwyno i nifer o gynlluniau presennol, fel Pass Plus Cymru, Kerbcraft, Megadrive, Safonau Cenedlaethol Hyfforddiant Beicio a chynllun gyrwyr Hyn.

Mae £98,500 hefyd wedi cael ei ddiogelu ar gyfer cyfres o brosiectau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, sy'n anelu at wella hygyrchedd a diogelwch, ac annog cerdded a beicio mewn cymunedau - gyda phwyslais arbennig ar wella llwybrau i ac o ysgolion. Bydd cynlluniau yn Ysgol Gynradd Bryn ac Ysgol Gynradd Ty

Sign yn buddio o'r arian hwn, ac mae cyllid wedi cael ei sicrhau ar gyfer nifer o gyfleusterau storio beiciau ychwanegol ar draws y fwrdeistref sirol.

Dwydododd Cyng. Tom Williams, "Rydym wrth gwrs yn

croesawu'r cyllid allweddol hwn, a fydd yn sicrhau fod y prosiectau pwysig hyn sydd wedi anelu at wella systemau cludiant, hyrwyddo diogelwch y ffyrdd ac annog cerdded a beicio yn ein cymunedau lleol yn gallu parhau."

Am fwy o wybodaeth ar brosiectau diogelwch y ffyrdd, ewch i www.caerffili.gov.uk



10 Cilomedr CAERFFILI

10am, DYDD SUL 21ain MEHEFIN 2015

Allwedd ffyrdd ar gau

- Ar gau yn llwyr 7.00am tan 1.00pm
- Ar gau yn llwyr 9.00am tan 10.15am
- Ar gau yn llwyr 9.00am tan 12.00pm
- Ar gau yn llwyr 9.30am tan 12.00pm
- B4600 yn Sgwâr Piccadilly ar gau o 9.00am tan 10.15am
- Ar gau yn llwyr 9.30am tan 10.45am
- Ar gau i draffig tua'r dwyrain (Cylchfan y Cedar Tree i Gylchfan Pont Bedwas) 9.00am tan 11.30am
- Dim mynediad i Barc Manwerthu Gallagher o 9.00am tan 11.30am o'r A468
- Ar gau yn llwyr o 9.30am tan 12.00pm
- Mynediad ar gael o Mornington Meadows a Pharc Lansbury

Bydd y cwrs 6.2 milltir o hyd yn tywys cyfranogwyr o amgylch canol tref Caerffili gan ddechrau a gorffen y ras ar Heol y Cilgant, yn erbyn cefnlen sef Castell Caerffili. Bydd angen i nifer o ffyrdd gael eu cau a bydd cyfyngiadau traffig rhwng 7.00am ac 1.00pm er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn ddiogel. Caiff pob ymdrech ei gwneud i ail-agor y ffyrdd cyn gynted ag y bydd yn ddiogel i wneud hynny ond wrth gwrs bydd peth tarfu yng nghanol y dref ei hun ac o'i hamgylch.

Anogir trigolion i dalu sylw i'r tarfu a dylai gyrwyr sy'n cynllunio teithio trwy'r ardal ar fore Sul 21ain Mehefin ddefnyddio dulliau amgen. Mae modd i bobl o bob gallu sy'n 15 oed neu'n hŷn gymryd rhan yn ras 10 cilomedr Caerffili. Cost y cofrestru yw £15 y person i'r rhai nad ydynt yn aelodau a £13 y person i'r rhai sy'n aelod o glwb/athletau Cymru a chonsesiynau. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan fod 15 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod y ras i gymryd rhan. Hefyd yn dychwelyd eleni fydd ras 2 gilomedr Caerffili sy'n costio £5.00 y person. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan fod yn 8 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod y ras.

Bydd miloedd o redwyr yn ymgynnull yng Nghaerffili ar ddydd Sul 21ain Mehefin wrth i ras 10 cilomedr Caerffili ddychwelyd am ei thrydedd flwyddyn!

I gofrestru neu am wybodaeth bellach ewch i:

www.caerphilly10k.co.uk neu ffoniwch 029 2088 0011

Gwelliannau ar gyfer deiliaid bathodynau glas

Yn dilyn adolygiad o ddarpariaethau meysydd parcio talu ac arddangos yn y fwrdeistref sirol, mae'r cyngor yn gweithredu cyfres o welliannau i helpu cwrdd ag anghenion defnyddwyr anabl.

Bydd 27 man parcio ychwanegol anabl yn cael eu darparu mewn 12 o feysydd parcio talu ac arddangos y fwrdeistref sirol, ac mae 34 o fannau parcio anabl sy'n bodoli'n barod wedi cynyddu mewn maint i 9 o'r meysydd parcio talu ac arddangos.

Yn hwyrach yn yr haf, bydd y cyngor hefyd yn cyflwyno consesiwn ym mhob maes parcio talu ac arddangos, a fydd yn caniatáu deiliaid bathodynau glas i barcio am awr ychwanegol o'r amser terfyn a ddangosir ar y tocyn talu ac arddangos. Bydd arwyddion/ byrddau tariff newydd yn cael eu codi yn y meysydd parcio pan fydd y consesiwn newydd hwn yn dod i rym. Mae'r cyngor hefyd yn awyddus i atgoffa deiliaid bathodynau glas y gallent barcio'n gyfreithlon am 'gyfnod o amser dderfyn' mewn man parcio aros cyfyngedig ac mewn man parcio preswylwyr yn unig o fewn bwrdeistref sirol Caerffili.

Nodwch fodd bynnag, efallai na fydd y consesiynau hyn yn gymwys wrth barcio mewn bwrdeistrefi sirol eraill, a dylai deiliaid bathodynau glas wirio os oes consesiynau yn bodoli cyn parcio yn eu cerbyd. Dywedodd Cyng. Tom Williams, "Rydym yn gobeithio bydd y newidiadau syml hyn yn fuddiol iawn i ddeiliaid bathodynau glas wrth ddefnyddio cyfeusterau parcio ceir ym mwrdeistref sirol Caerffili."

Gall ceisiadau ar gyfer bathodyn glas gael ei wneud ar-lein neu mewn person. I wneud cais ar-lein, ewch i www.gov.uk/apply-blue-badge neu fel arall, ffoniwch **01443 866571** i wneud

apwyntiad gydag Ymgynghorydd Gwasanaethau Cwsmeriaid yn unrhyw un o'n Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y fwrdeistref sirol.




Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Efallai, bod trigolion wedi clywed am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ond, beth yw hi?

Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru a daeth i rym ym mis Ebrill.

Erbyn hyn, mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a nifer o gyrff cyhoeddus eraill ar draws Cymru feddwl am yr hir dymor, gweithio'n well â phobl leol, cymunedau â'i gilydd, edrych ar atal problemau a magu ymagwedd fwy cysylltiedig. Y gobaith yw y bydd hyn yn creu Cymru y bydd pob un ohonom am fwy ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

I sicrhau bod yr holl gyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, y mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant:



Bydd y gyfraith newydd hefyd yn golygu bod angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ystyried yr effaith ar bobl Caerffili yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

Am wybodaeth bellach ewch i www.caerffili.gov.uk a www.thewaleswewant.co.uk/cy

Gwelliannau Ffordd yn 'Fiddler's Elbow'

Mae cynllun i gynnal gwaith gwella hanfodol ar y draphont wrth Fiddler's Elbow ger Nelson yn debygol o darfu ar draffig yn ystod y misoedd nesaf.

Mae cyfyngiad cyflymder eisoes mewn lle ar y strwythur strategol allweddol hon sy'n cysylltu cylchfan yr A470 yn Abercynon â chylchfan yr A472 i gyfeiriad Nelson. Cyngorau Merthyr a RhCT fydd yn cynnal y gwaith a disgwylir y bydd y bont yn parhau i fod ar agor i draffig sy'n mynd i gyfeiriad y dwyrain (h.y. o'r A470 i gyfeiriad Nelson) drwy gydol cyfnod y cynllun ond bydd angen i draffig sy'n teithio i gyfeiriad y gorllewin ddilyn gwyriad.

Ar adeg argraffu Newline nid oedd yr union ddyddiadau ar gyfer y cynllun wedi'u cadarnhau ond disgwylir y bydd y prif waith yn cael ei gynnal o ganol mis Gorffennaf tan ddiwedd mis Hydref 2016. Bydd tarfu ar y traffig yn debygol, yn enwedig yn ystod adegau prysur, felly caiff gyrwyr eu hannog i ddefnyddio ffyrdd amgen os yn bosib.

Ydych chi'n un o hyfforddwyr y dyfodol?



Mae Rhaglen Hyfforddwyr y Dyfodol Chwaraeon Caerffili yn cynnal diwrnod dethol myfyrwyr yn Ysgol Gyfun Coed Duon ar Ddydd Iau 30ain Mehefin.

Mae'r rhaglen, sydd wedi'i chefnogi gan Chwaraeon Cymru, yn rhoi cymorth a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd a gwerthfawr ynghyd â chymwysterau cydnabyddedig i'r hyfforddwyr ifainc gorau yng Nghaerffili.

Mae'r Rhaglen Hyfforddwyr y Dyfodol ar agor i fyfyrwyr Blwyddyn 11 o fewn y fwrdeistref sy'n cychwyn ym Mlwyddyn 12 neu yn y Coleg ym mis Medi 2016.

Bydd yr holl hyfforddwyr sy'n cael eu dewis i gymryd rhan yn y rhaglen 2 flynedd yn ennill cymhwyster Gwobr Arweinydd Chwaraeon Cymunedol lefel 2 yn ogystal â chymhwyster cymorth cyntaf a chymhwyster lles plant cyn iddynt gychwyn yn eu clybiau lleol.

Cafodd Charlotte Thomas, 17, o Rymni ei dewis fel rhan o garfan Rhaglen Hyfforddwyr y Dyfodol 2015. Meddai, "Trwy'r rhaglen hon rwyf nid yn unig wedi datblygu fy ngallu fel hyfforddwr ond, hefyd, fel person."

Caiff y gwobrau hyn eu cydnabod fel carreg gamu i'r diwydiant Chwaraeon a Hamdden gan hefyd gynorthwyo â mynediad at Addysg Uwch.

Am wybodaeth bellach am y rhaglenni hyn, cysylltwch â Robert Bailey ar bailer@caerphilly.gov.uk neu ffoniwch 07919 627436

Ymwybyddiaeth AM ALERGEDD

Mae rhyw 2 filiwn o bobl yn y DU yn dioddef o alergedd bwyd ac, ar gyfartaledd, caiff tua 5,000 eu cludo i'r ysbyty a bydd 10 person y flwyddyn yn marw o ganlyniad i adweithiau alergaidd.

Mae'n rhaid i fusnesau sy'n gwerthu bwyd rhydd roi gwybodaeth i gwsmeriaid am 14 o fwydddyd cyffredin y gallant achosi adwaith alergaidd gan gynnwys cnau coed, pysgnau, wyau, llaeth a physgod - ymhlith eraill. Os na chaiff y wybodaeth ei rhoi i gwsmeriaid o flaen llaw, mae'n rhaid i fusnesau nodi'n glir o le y mae modd i gwsmeriaid dderbyn y wybodaeth.

I gofnodi'r Wythnos Ymwybyddiaeth am Alergedd ddiweddar, dosbarthwyd copiâu o Ganllawiau'r Gyfraith y Safonau Masnach sy'n amlinellu'r gofynion cyfreithiol o ran alergedd bwyd, i bob busnes pryd ar glyd ym mwrdeistref sirol Caerffili.

Mae copi o'r canllaw ar gael ar:
<http://www.tradingstandards.wales.org.uk/help/2016FebFood.cfm>

Am wybodaeth bellach neu i adrodd mater i dîm Safonau Masnach y Cyngor ffoniwch 01495 235 291

Nodyn atgoffa gwaredu gwastraff



Mae'r cyngor yn atgoffa trigolion o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod eu gwastraff yn cael eu gwaredu yn gywir.

Yn ddiweddar, mae nifer o unigolion wedi wynebu cael eu herlyn, ar ôl talu cwmnïau gwaredu didrwydded i gael gwared ar wastraff- sydd o ganlyniad heb gael ei waredu yn gywir, ac sy'n aml yn cael ei dipio'n anghyfreithlon. Gall troseddwy'r tipio anghyfreithlon wynebu dirwyon o hyd at £50,000 a/neu eu carcharu.

Mae trigolion hefyd yn cael eu rhybuddio yn erbyn gollwng gwastraff tu allan i ganolfannau ailgylchu ar ddiwrnodau pan maent ar gau; oherwydd bydd achosion o'r fath yn cael eu trin fel achosion o dipio anghyfreithlon ac yn cael eu hymchwilio yn yr un modd.

Mae pob Canolfan Ailgylchu ar gau un diwrnod yr wythnos:

- Trehir (ar gau Ddydd Iau)
- Penmaen (ar gau Ddydd Mawrth)
- Lleud Lawn (ar gau Ddydd Sul)
- Rhymmi (ar gau Ddydd Mawrth)
- Penallta (ar gau Ddydd Mercher)
- Aberbargod (ar gau Ddydd Iau)

Mae Canolfannau Ailgylchu ar agor 9am - 5.30pm rhwng 1af Ebrill a'r 30ain Medi a 9am tan 4.30pm rhwng 1af Hydref a'r 31ain Mawrth. Mae canolfannau ar agor fel arfer ar wyliau banc ond ar gau ar Ddydd Nadolig, Dydd Gŵyl Sant Steffan a Dydd Calan.

Mae'r cyngor hefyd yn cynnig casgliad eitemau swmpus ar gyfer nwyddau cartrefi mawr fel celfi, rheiddiaduron a gwastraff adeiladu. Gall drigolion hefyd gysylltu â The Furniture Revival ar 01685 846830 i drefnu gwaredu ar rewgell-rewgist yn ddiogel a chyfreithiol.

Dyweddodd y Cyng. Nigel George, "Mae tipio anghyfreithlon yn fater difrifol ac rydym yn ymchwilio'n llawn i bob achos

unigol. Rydym yn annog trigolion i gymryd mantais lawn o'r dulliau gwaredu cywir sydd ar gael gan gynnwys casgliadau ymyl y ffordd, canolfannau ailgylchu a'n casgliadau eitemau swmpus. Dylai trigolion hefyd fod yn ofalus wrth ddefnyddio gwasanaethau glanhau'r cartref - os yw trigolyn yn talu i waredu ar wastraff sydd wedyn yn cael ei dipio'n anghyfreithlon, maent yn gyfrifol ac yn atebol i erlyniad."

I hysbysu am ddigwyddiad o dipio anghyfreithlon neu i ddarganfod mwy am ailgylchu ffoniwch 01443 866566 neu ewch i www.caerffili.gov.uk



NewsLine

Cadwch mewn cyswllt

Gall trigolion gael y newyddion diweddaraf o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili drwy gofrestru i 'NewsOnLine'

Mae'r gwasanaeth am ddim yn darparu'r gwybodaeth canlynol

- Digwyddiadau i ddod
- Swyddi gwag
- Caeadau ffyrdd
- Caeadau ysgolion

I gofrestru ewch i www.caerffili.gov.uk



Chliciwch ar y botwm 'Cadwch mewn Cyswllt'


Hyfforddiant beicio "Gwych"

Mae disgyblion o ar draws bwrdeistref sirol Caerffili yn buddio o'r Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol sy'n anelu at annog mwy o bobl i feicio ac i sicrhau fod pobl ifanc yn gwybod sut i fod yn feicwyr diogel.

Mae'r cyngor, mewn partneriaeth â chwmni o'r enw Gethin MTB a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, yn dysgu hyfforddiant lefel un a dau ar hyn o bryd mewn nifer o ysgolion cynradd ar draws y fwrdeistref sirol. Wedi ei anelu at ddisgyblion blwyddyn 6, bydd yr hyfforddiant yn digwydd ar strydoedd lleol, lle maent yn cael eu dysgu sut i reidio beic yn ddiogel a delio â thraffig ar deithiau byr fel beicio i'r ysgol neu i'r siop leol.

Mae'r cynllun wedi ehangu yn ddiweddar, gyda disgyblion blwyddyn 9 o nifer o ysgolion cyfun - Heolddu, Ysgol Lewis Pengam, Bedwas a Rhymni - sy'n buddio o dderbyn hyfforddiant lefel tri. Mae hyn yn delio gyda heolydd mwy heriol a sefyllfaoedd traffig, gan gynnwys defnyddio goleuadau traffig a chylchfannau. Unwaith maent wedi cwblhau hyfforddiant lefel tri, dylent fod yn gallu beicio'n ddiogel bron unrhyw le.

Am ragor o wybodaeth am y cynllun, ffoniwch 01495 235 427



Ydych chi'n gosod eiddo yng Nghymru?

Mae deddf newydd yn gofyn i bob landlord gofrestru ac mae angen i asiantau a landlordiaid sy'n hunan reoli gael trwydded.

Am fwy o wybodaeth ac i wneud cais, ewch i rhentudoeth.llyw.cymru neu ffoniwch 03000 133344



Digwyddiadau anhygoel yr haf



Mae digonedd o resymau i fynd allan ym mwrdeistref sirol Caerffili'r haf hwn, gydag amrywiaeth o adloniant ar gyfer pob aelod o'r teulu.



I ddechrau'r rhaglen mae 10 cilomedr Caerffili sy'n dychwelyd ar Ddydd Sul 19eg Mehefin (manylion llawn ar dudalen 4).

Diwrnod y Lluoedd

Yn ei ddilyn yn fuan mae dathliadau Diwrnod y Lluoedd Arfog Cwm Rhymni sy'n cael ei gynnal yng nghanol Rhymni ar Ddydd Llun 20fed Mehefin am 10am. Bydd cyn-filwyr a banerwyr Y Llog Prydeinig Brenhinol yn gorymdeithio drwy'r Stryd Fawr cyn i seremoni swyddogol gael ei gynnal drws nesaf i Lyfrgell Rhymni. Gan barhau gyda thema'r Lluoedd Arfog, bydd Dydd Sadwrn 25ain Mehefinyn gweld Diwrnod y Lluoedd Arfog De Cymru yn dod i Gaerffili. Mae'r digwyddiad poblogaidd, sy'n cael ei gynnal yng Nghaerffili am y tro cyntaf yn addo digwyddiad hwyl AM DDIM ar gyfer y teulu i gyd, ac mae'n cael ei gynnal yng Nghaeau Chwarae Owain Glyndŵr yng Nghaerffili rhwng 10am a 6pm. Mae manylion llawn ar y dudalen blaen.



Diwrnod y Lluoedd Arfog Cwm Rhymni ✨ 20fed Meh

Ffiliffest

Hefyd ar Ddydd Sadwrn 25ain Mehefin mae'r Ffiliffest, sy'n cael ei gynnal yng Nghastell Caerffili rhwng 10.30am a 4pm. Mae'r ŵyl llawn hwyl am ddim yn ddathliad haf y Fenter Iaith o'r iaith Gymraeg a thraddodiadau Cymreig lleol. Bydd y digwyddiad yn cynnwys perfformiadau, adloniant, gweithgareddau, gweithdai a chyfle i archwilio Castell Caerffili.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01443 820913 neu ewch i www.mentercaerffili.org



Parti Traeth Coed ✨ 2il - 3ydd Gorffennaf

Parti Traeth Coed

I'r rheini sydd eisiau ymlacio'r haf hwn, mae Parti Traeth Coed yn cynnig y cyfle perffaith. Ar Ddydd Sadwrn 2il Gorffennaf a Dydd Sul 3ydd Gorffennaf, mae'r digwyddiad yn dychwelyd am ei bumed flynedd gyda masnachwyr, reidiau ffair hwyl, cymeriadau plant poblogaidd ac wrth gwrs - y traeth! Mae hwn yn ddigwyddiad AM DDIM.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Chanolfan Croeso Caerffili ar 02920 880011 neu ewch i www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau

Casgliadau gwastraff bwyd

Diolch i ymdrechion gwyh gan y mwyafrif o drigolion, mae'r cyngor ar y ffordd i gwrdd â'i dargedau uchelgeisiol o ailgylchu 58% o'r holl wastraff a gasglwyd.

Serch hynny, mae llai na hanner y trigolion yn cymryd rhan ar hyn o bryd yn y cynllun casglu bwyd gwastraff wythnosol ac mae'r cyngor yn amcangyfrif bod yn agos i 7,000 tunnelli fetrig o fwyd gwastraff yn cael ei roi yn y biniau gwyrdd gwastraff cyffredinol am gost o bron £500,000 y flwyddyn. Os oedd pob aelwyd yn cymryd rhan yn y casgliadau bwyd gwastraff, byddai'r cyngor yn arbed dros £200,000 y flwyddyn a fydd yn helpu gwarchod gwasanaethau rheng flaen eraill. Dylai pob cartref gael dau gynhwysydd ar gyfer gwastraff bwyd; cadi bach i gadw yn y gegin a chadi mwy i gadw tu allan.

Mae gwastraff bwyd yn cael ei gasglu yn wythnosol o ochr y palmant - i wirio eich diwrnod casglu neu i ofyn am gadi gwastraff bwyd AM DDIM, ewch i www.caerphilly.gov.uk neu ffoniwch 01443 866533



Gall y cadis gael eu leinio gyda leiner compost neu bapur newydd, a gall y biniau gael eu defnyddio i ailgylchu'r eitemau bwyd canlynol:

■ **Bara (wedi llwydo/hen fara)**

- Ffrwythau a llysiau
- Bagiau te
- Plisgyn wyau
- Cig a physgod
- Bwyd anifeiliaid
- Esgyrn
- Cynhyrchion llaeth
- Reis a phasta
- Grawnffwydydd
- Bwyd dros ben

Maeres newydd

Cyhoeddwyd Dianne Price fel Maeres newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Dyweddodd y Cyng. Dianne Price, sydd wedi bod yn gyn-gynghorydd ers 2004, yn cynrychioli ward Bargod "Mae'n anrhydedd gwyh i gael fy nhethol fel y Faeres newydd, ac edrychaf ymlaen yn fawr at yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw fy mlwyddyn yn y swyddfa."

Ei dewis elusen ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yw Gofal Cancr Felindre, ac mae'n gobeithio codi cymaint o arian â phosibl yn ystod ei hamser fel Maeres ar gyfer yr achos teilwng iawn hwn.

Hefyd, cyhoeddwyd y Dirprwy Faer sef y Cynghorydd John Bevan, sydd yn cynrychioli ward Moriah.



UsefulNumbers

MAIN SWITCHBOARD

PRIF SWITSWFRDD

 01443 815588

Minicom

Minicom

 01443 873626

Emergency Number for Council Services:

Rhif argyfwng ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor:

 01443 875500

(Out of hours only • Allau o Oriau yn unig)

Adults' Social Services

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

 0808 100 2500

StreetPride

BalchderStryd

 01443 866566

Blue Badge

Bathodyn Glas

 01443 866571

RhifauDefnyddiol

Children's Social Services

Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant

 0808 100 1727

Consumer Advice

Cyngor i Ddefnyddwyr

 08454 04 05 06

Council Tax Enquiries

Ymholiadau Treth y Cyngor

 01443 863002

Furniture Recycling

Ailgylchu Dodrefn

 01685 846830

Housing & Council Tax Benefits

Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor

New Claims:
Hawliau Newydd:

01443 866567

Existing Claimants:
Hawlywr Presennol:

01443 864099

 01443 866571

Common Housing Register

The way people apply for and are assessed for social housing in the county borough will change.

A Common Housing Register will be introduced by December 2016, which means that all seven housing associations with homes in the county borough will close their waiting lists to create a single waiting list. Residents who have a current housing application and want to remain on the waiting list will be transferred across to the Common Housing Register. In order to do this, residents will be asked for some additional information.

Residents will receive a letter with a short application form to be filled in. It's very important that this form is completed and returned within 21 days of the date of the letter. If residents don't, they may not be transferred to the Common Housing Register and may not be considered for rehousing.

For more information, or for help completing the form, please call 01443 873 587 or email: housingallocationsandadvice@caerphilly.gov.uk

Cofrestr Tai Cyffredinol

Bydd y ffordd y mae pobl yn gwneud cais ac yn cael eu hasesu ar gyfer tai cymdeithasol yn y fwrdeistref sirol yn newid.

Bydd Cofrestr Tai Cyffredinol yn cael ei gyflwyno erbyn Rhagfyr 2016, sy'n golygu bydd y saith cymdeithas dai i gyd gyda chartrefi yn y fwrdeistref sirol yn cau eu rhestrau aros er mwyn creu un rhestr aros. Bydd trigolion sydd â chais tai presennol ac sydd eisiau aros ar y rhestr aros yn cael eu trosglwyddo i'r Gofrestr Tai Cyffredin. Er mwyn gwneud hyn, gofynnir i drigolion am wybodaeth ychwanegol.

Bydd trigolion yn derbyn llythyr gyda ffurflen gais byr i'w llenwi. Mae'n bwysig iawn fod y ffurflen hon yn cael ei chwblhau a'i dychwelyd o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr. Os nad yw trigolion yn gwneud hyn, efallai na fyddent yn cael eu trosglwyddo i'r Gofrestr Tai Cyffredin ac efallai na fyddent yn cael eu hystyried ar gyfer ailgartrefu.

Am fwy o wybodaeth, neu am gymorth i gwblihu'r ffurflen, ffoniwch 01443 873 587 neu e-bostiwch dyraniadauachyngortai@caerffili.gov.uk

What's ON / Digwyddiadau

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk
For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068

Mark Thompson: The Show at the End of the Universe

10/06 • 7.30pm

Blackwood Miners' Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon

The TV astronomer, presenter and author takes you on a fascinating journey of discovery around our Universe with the help of some astounding demonstrations.

Mae'r seryddwr Teledu, cyflwynydd a'r awdur yn eich cymryd ar daith hudol o ddarganfod o amgylch ein Bydysawd gyda chymorth rhai arddangosiadau rhyfeddol. Tocynnau £14/£12 – Oedran 12+-. Mae archebu yn hanfodol.

01495 227 206

Monstersaurus!

18/6 • 11am - 2pm

Blackwood Miners' Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon

Follow young inventor Monty as he creates a world of whacky inventions and incredible monsters. Tickets £4.50/£3.50/£14 Family of 4. Suitable for ages: 3+.

(Relaxed performance) - Running time: 50mins
Dilymchw y dyfeisiwr ifanc Monty wrth iddo greu byd o ddyfeisiau gwirion ac angenfilod anhygoel. Tocynnau £4.50/£3.50/£14 Teulu o 4. Addas i blant: Oedran 3+.

(Perfformiad hamddenol) - Hyd: 50munud
01495 227 206

Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk
I gael gwybodaeth am sgysrsiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068

www.caerphilly.gov.uk/events  www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau

Funding Bids

Community schemes will be able to tap into a £50,000 funding pot every year over the next 25 years thanks to a new green partnership.

Viridor, the firm working with the 'Prosiect Gwyrdd' council partnership, have announced the launch of a new Community Fund to support projects across Caerphilly, Cardiff, Monmouthshire, Newport and Vale of Glamorgan. Charities, and properly constituted not-for-profit groups, will be able to apply for funding (up to £3,000) to deliver projects that positively impact their local community. Funding of projects is awarded on a set of criteria based around sustainability, local need, community involvement, value for money and education.

viridor.co.uk/our-operations/energy/energy-recovery-facilities/cardiff-erf/community/

Cynigion am Gyllid

Bydd cynlluniau cymunedol yn gallu manteisio ar werth £50,000 o arian bob blwyddyn dros y 25 mlynedd nesaf, diolch i bartneriaeth wyrdd newydd.

Mae Viridor, y cwmni sy'n gweithio gyda'r bartneriaeth Cyngor 'Prosiect Gwyrdd', wedi cyhoeddi lansiad Cronfa Gymunedol newydd i gefnogi prosiectau ledled Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg. Bydd elusennau a grwpiau nid-am-elw sydd wedi'u cyfansoddi'n briodol, yn gallu gwneud cais am arian (hyd at £3,000) er mwyn cyflawni prosiectau sy'n cael effaith gadarnhaol eu cymuned leol. Dyfermir arian am brosiectau ar set o feini prawf sy'n seiliedig ar gynaliadwydd, angen lleol, cyfranogiad cymunedol, gwerth am arian ac addysg.

viridor.co.uk/our-operations/energy/energy-recovery-facilities/cardiff-erf/community/

Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk
I gael gwybodaeth am sgysrsiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068

p.8 June 2016 Newsline For more news visit www.caerphilly.gov.uk/news • Am fwy o newyddion ymwelwch â www.caerffili.gov.uk/newyddion Newsline Mehefin 2016 t.8